# Diogelwch

## Beth ddywed y gyfraith

Mae yna nifer o ddeddfau i'ch amddiffyn rhag effeithiau prynu nwyddau anniogel neu beryglus ac fe allwch chi hawlio yn erbyn y masnachwr a/neu'r gwneuthurwr yn dibynnu ar ba ddeddf y byddwch yn ei defnyddio.

**Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd)** Os yw'r **nwyddau** brynoch chi yn **anniogel**, nid ydynt o ansawdd boddhaol**.** Efallai fod gennych yr hawl i'w dychwelyd a chael eich arian yn ôl, cyfnewid yr eitem neu ei drwsio, neu dderbyn iawndal.

**Deddf Gwarchod Defnyddwyr 1987.** Yn ôl y ddeddf hon, gall y **gwneuthurwr** neu'r **mewnforiwr** fod yn atebol i unrhyw niwed a achosir gan nwyddau diffygiol (peryglus neu anniogel). Mae niwed yn cynnwys marwolaeth neu anaf personol a difrod i eiddo preifat (yn achos eiddo preifat, rhaid i'r hawl fod yn fwy na £275), ond nid difrod i'r nwyddau eu hunain. Er enghraifft, os yw cadair wthio yn plygu, gan niweidio'r fam a'r plentyn, gall y fam ofyn am iawndal o dan y ddeddf hon ar gyfer niwed personol iddi hi ei hun a'i phlentyn, ond nid iawndal am y gadair ddiffygiol. Os ydych chi am wneud cais o dan y ddeddf hon: -

- rhaid i'r nwyddau fod ar gyfer defnydd neu dreuliant preifat ( er enghraifft, nid cyfrifiadur rhwydwaith) neu a fwriedir ar gyfer defnydd proffesiynol ond yn ymarferol yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr (er enghraifft, rhai cynhyrchion DIY)

- Rhaid i chi wneud y **cais** o fewn **3 blynedd** o'r dyddiad yr achoswyd y difrod, neu **3 blynedd** o'r dyddiad y gallai'r diffyg yn rhesymol fod wedi ei ddarganfod. Mae atebolrwydd y gwneuthurwr neu fewnforiwr yn dod i ben **10 mlynedd** ar ôl i'r nwyddau ymddangos gyntaf ar y farchnad.

**Esgeulustod**
Efallai y byddwch yn gallu hawlio **iawndal** am esgeulustod oddi wrth y **masnachwr** neu'r **gwneuthurwr**. Nid oes rhaid eich bod wedi prynu'r nwyddau eich hun oddi wrth y masnachwr ac nid oes rhaid bod tramgwydd troseddol wedi digwydd. Sut bynnag, rhaid i chi ddangos nad oedd y masnachwr neu'r gwneuthurwr wedi cymryd digon o ofal ac o ganlyniad rydych chi wedi dioddef colled, difrod neu niwed oherwydd y nwyddau. Fe allwch hawlio hefyd am esgeulustod lle mae rhywun wedi darparu gwasanaeth megis cyfreithiwr neu adeiladwr ond heb gyflawni'r gwasanaeth gyda gofal rhesymol, sgil na chymhwysedd. Mae gennych **6 mlynedd** i gymryd achos o esgeulustod, oni bai eich bod yn hawlio am niwed personol, pan fydd y terfyn amser yn **3 blynedd**.

**Os ydych chi'n ystyried hawlio am esgeulustod a/neu niwed personol, fe ddylech chi gael cyngor cyfreithiol bob amser ynghylch rhinweddau eich achos a'r cyfanswm iawndal y dylech ei hawlio/dderbyn.**



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

## Safonau Prydeinig

Mae rhai cynhyrchion yn dod o dan **Safon Brydeinig** a luniwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). Mae safonau Prydeinig yn disgrifio sut y dylid gwneud nwyddau ac mae eraill yn ymwneud â safonau diogelwch. Bydd nwyddau a wneir i safon Brydeinig wedi'u marcio gan rif BS. Os profwyd nwyddau gan y BSI, fe fyddan nhw'n arddangos y symbol **nod barcut.**

Os oes gennych gwyn yn erbyn nwyddau sy'n cario'r nod barcut sy ddim i fyny i'r safon yn eich barn chi, a chwithau wedi methu datrys eich cwyn gyda'r masnachwr neu'r gwneuthurwr, fe allwch ofyn i **Adran Sicrwydd Ansawdd BSI** i ymchwilio ar eich rhan. Bydd BSI yn profi'r nwyddau ar eich rhan ac os ategir eich cwyn, bydd BSI yn codi'r mater gyda'r gwneuthurwr. Bydd rhaid i chi dalu am y prawf. Fe allwch ffonio BSI am fwy o wybodaeth ar 020 8996 9000.

## Tramgwyddau Troseddol

Mae'r deddfau canlynol yn delio â sefyllfaoedd lle mae'r masnachwr neu'r gwneuthurwr wedi cyflawni tramgwydd troseddol:

- Mae **Deddf Disgrifiadau Masnachol 1968** yn nodi ei bod hi'n dramgwydd troseddol i werthu neu gynnig nwyddau sydd â **disgrifiad ffug**. Mae hyn yn cynnwys nwyddau a ddisgrifir fel rhai sy'n cyrraedd safonau diogelwch ond heb wneud hynny, er enghraifft, celfi a ddisgrifir fel rhai sy'n gallu gwrthsefyll tân ond sy'n profi i fod yn gwbl fflamadwy. Os ydych chi'n credu eich bod wedi'ch camarwain ynglŷn â chynnyrch arbennig, fe ddylech chi gysylltu â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506
- Mae **Rheoliadau Diogelwch Cynnyrch Cyffredinol 2005** yn eich amddiffyn yn erbyn gwerthu neu gynhyrchu nwyddau sy'n anniogel**.** Nid oes rhaid i chi gael eich niweidio gan y nwyddau cyn i drosedd ddigwydd**.** Mae'r mwyafrif o nwyddau newydd, ail law neu rhai a adnewyddwyd yn dod o dan y rheoliadau hyn oni bai fod yna ddeddf ddiogelwch Ewropeaidd penodol sy'n berthnasol. Er enghraifft, mae Rheoliadau Diogelwch Teganau 1995, sydd wedi'i seilio ar Gyfarwyddeb Ewropeaidd, eisoes yn rheoli diogelwch teganau a bydd yn rhoi gwybodaeth benodol ynglŷn â beth sy'n gwneud tegan diogel. Os ydych chi'n credu bod unrhyw gynnyrch yn anniogel, fe ddylech roi gwybod i Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506, p'un ai bod rhywun wedi ei niweidio ai peidio.
- **Rheoliadau Diogelwch Penodol.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod allan beth sydd ei angen ar gynnyrch o fath arbennig, er enghraifft y dylid cyfyngu ar werthiant rhai mathau arbennig o dân gwyllt. Mae'n dramgwydd troseddol i dorri'r rheoliadau hyn. Mae cannoedd o reoliadau diogelwch, sy'n rhoi rheolau arbennig i fathau gwahanol o gynnyrch. Bydd unrhyw eitem nad yw'n dod o dan ei reoliadau arbennig ei hun yn cael ei ddal gan Reoliadau Diogelwch Cynnyrch Cyffredinol (gweler uchod) fel na fydd un cynnyrch yn cael ei roi ar y farchnad os nad yw'n gynnyrch diogel.

Gall Cyswllt Defnyddwyr roi gwybodaeth bellach i chi ynglŷn â rheoliadau unigol. Os oes gennych gwyn ynglŷn â diogelwch lle mae trosedd wedi'i chyflawni yn eich barn



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

chi, cysylltwch â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506. Os caiff y masnachwr neu'r gwneuthurwr ei erlyn a'i gael yn euog, fe all y llys eu gorchymyn i dalu iawndal i chi.

## Cymorth ychwanegol

### Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

### Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cychwyn achos llys
- Nwyddau
- Gwasanaethau

**Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.**

**Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 01 Gorffennaf 2006, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.**



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr